**P-05-903 Ffilmio a Recordio Cyfarfodydd Cyngor**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Cllr Russell Spencer-Downe, ar ôl casglu cyfanswm o 58 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i ddilyn y gyfraith yn Lloegr sy'n ymgorffori yn y gyfraith hawl preswylwyr, blogwyr a newyddiadurwyr i adrodd, blogio, trydar a ffilmio cyfarfodydd cyngor i sicrhau natur agored a thryloywder. Nid yw hyn wedi digwydd yng Nghymru, a dylid ei gyflwyno er mwyn caniatáu yr un fath yng Nghymru.

Dylai'r gofyniad hwn ganiatáu i'r cyhoedd, fel arsylwyr cyfrifol, recordio neu ffilmio cyfarfodydd o'r fath heb fod angen caniatâd ymlaen llaw ac i ailddefnyddio'r deunydd yn rhydd er mwyn cyfathrebu'n uniongyrchol ac yn ehangach ag etholwyr.

Gwnaeth Lloegr gyflwyno'r gyfraith hon a rhoi'r hawliau i ni yn 2014, a dylai Cymru gael yr un hawliau.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru